

# Bwletin Llythrennedd a Rhifedd

*Croeso i Fwletin Llythrennedd a Rhifedd GWE! Rydym yn gwybod pa mor brysur yw athrawon dosbarth, felly, rydym wedi mynd trwy'r swmp o wybodaeth ac adnoddau sydd ar gael am y blaenoriaethau cenedlaethol hyn â chrib fân er mwyn gwneud bywyd yn haws! Hyderwn y bydd yn ddefnyddiol i chi a byddem yn croesawu unrhyw adborth fel y gallwn deilwra bwletinau'r dyfodol i fodloni eich anghenion.*

## Adnoddau-Beth sydd ar gael ar y we?

### Llythrennedd



#### Lansio ap Tric a Chlic

Mae Canolfan Peniarth newydd lansio ap newydd a chyffrous, yn rhad ac am ddim, ar gyfer plant rhwng 3 a 5 oed yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd yr ap Tric a Chlic yn cefnogi plant wrth iddynt ddysgu sain a ffurf llythrennau'r wyddor Gymraeg, a bydd yn gymorth i ddatblygu eu sgiliau darllen yn ogystal.

<http://canolfanpeniarth.org/newyddion?pt=lansio-ap-tric-a-chlic>



#### Cystadleuaeth ysgrifennu 500 gair BBC Radio 2

##### Pa stori ysgrifennwch chi?

Anogwch eich disgyblion i ysgrifennu stori wreiddiol cyfrwng Saesneg ar unrhyw thema, mewn 500 gair neu lai, a'i gyflwyno ar y we. Bydd stori'r enillydd yn cael ei ddarllen yn fyw ar BBC Radio 2..

<http://www.bbc.co.uk/programmes/articles/3M7PTxp3qJ0jk2FQbDJng9p/500-words-what-story-will-you-write>

### Rhifedd



Mae'r deunyddiau Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth yn cynnig nifer o wahanol weithgareddau i'r athrawon, gan ddefnyddio amrediad eang o ddulliau cyflwyno o bob rhan o'r Fframwaith.

<http://learning.gov.wales/resources/learningpacks/reasoning-in-the-classroom/?skip=1&lang=cy>

### Hwb

Ydych yn ystyried eich cymhwyster digidol?

Edrychwch ar Tackle-casgliad o syniadau am weithgareddau TGCh ar gyfer CA2 y gelli'r eu defnyddio ar draws y cwricwlwm.

<http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/f63219b6-8903-44be-94b4-456808528cf6/cy>



#### Cwrs Lefel 1 Sylfaenol mewn Athroniaeth I Blant (P4C)

Mawrth 16 a 17 2016

A1 Conference Centre, Pontypridd

Os ydych eisiau annog disgyblion i feddwl yn greadigol ac yn feiriadol, a chynnyddu eu cyfranogiad mewn gwersi, yna mynychwch y cwrs dau ddiwrnod yma. Mi fydd yn rhoi cyflwyniad llawn i fethodoleg addysg Athroniaeth i Blant. Am fwy o fanylion cysylltwch â [martinpollard@wcia.org.uk](mailto:martinpollard@wcia.org.uk)



GWE(@GWEgogleddCymru)

## Arfer Dda



### Rheolwr penodedig i fonitro datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd



Roedd Ysgol Glan Gele yn Abergele yn awyddus i sicrhau bod y flaenoriaeth uchaf yn cael ei rhoi i gynllunio ar gyfer y fframwaith medrau llythrennedd a rhifedd. Trwy weithio ynghyd mewn cyfarfodydd staff a grwpiau blwyddyn i fapio medrau penodol yn eu cynlluniau, mae'r ysgol wedi gweld gwelliannau sylweddol ym medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

<http://www.estyn.llyw.cymru/arfer-orau/rheolwr-penodedig-i-fonitro-datblygiad-medrau-llythrennedd-rhifedd>



### Mae arferion addysgu yn creu profiadau dysgu o ansawdd uchel

Mae Ysgol Stanwell yn canolbwyntio ar greu hinsawdd o barch ar y ddwy ochr rhwng athrawon a disgyblion. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel sydd wedi hybu cyfraddau llwyddiant ar draws y cwricwlwm ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr.

<http://www.estyn.llyw.cymru/arfer-orau/mae-arferion-addysgu-yn-creu-profiadau-dysgu-o-ansawdd-uchel>

### Nodyn atgoffa i bob athro/athrawes dosbarth Derby:



#### Pori Drwy Stori

Dyma restr llyfrau'r tymor hwn, a rhestrau llyfrau â thema eraill i chi fwrw golwg drostynt neu eu hargraffu, gydag awgrymiadau am lyfrau i blant oedran dosbarth derbyn sy'n cyd-fynd ag adnoddau Pori Drwy Stori.

<http://poridrwystori.booktrust.org.uk/cy/books/>



### Adroddiad Blynyddol 2014 - 15

Darllenwch Adroddiad Blynyddol 2014-15 y Prif Arolygydd i weld yr arfarniad diweddaraf o addysg a hyfforddiant:

<http://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol>